Urdd

Urdd Gobaith Cymru

Gwybodaeth Nawdd

Sponsorship Information

Beth yw Eisteddfod yr Urdd?

Eisteddfod yr Urdd yw Gŵyl Ieuenctid fwyaf Ewrop. Mae'r ŵyl yn ddathliad o'r iaith Gymraeg, y diwylliant a'r cyfoeth o dalent ifanc sydd yng Nghymru heddiw. Bob blwyddyn daw oddeutu 15,000 o blant a phobl ifanc i gystadlu a hyd at 90,000 o ymwelwyr i'r maes.

Lleoliad yr Eisteddfod yn 2020 fydd Dinbych. Bydd caeau Fferm Kilford ger tref Dinbych yn cael eu trawsnewid i fod yn faes byrlymus ar gyfer plant a phobl ifanc o bob cwr o Gymru a thu hwnt. Byddant yn cystadlu mewn amryw o gystadlaethau gan gynnwys canu, dawnsio, offerynnol, cerdd dant, llefaru a llawer mwy.

Yn ogystal â'r cystadlu brwd, bydd arddangosfeydd cyffrous yn y GwyddonLe a'r babell Gelf a Chrefft a llwyfan berfformio gyda chantorion, dawnswyr, bandiau byw a grwpiau ysgolion yn diddanu trwy'r dydd, bob dydd. Ym Mhentre Mistar Urdd ceir arlwy amrywiol sy'n rhoi blas o'r hyn sydd gan yr Urdd i'w gynnig a chynhelir llu o weithgareddau chwaraeon gan gynnwys saethyddiaeth, pêl droed, rygbi a wal ddringo yn y Pentre Chwaraeon, digon i ddiddanu pawb.

Yr Eisteddfod a'r Economi Leol

Nid yn unig y mae dyfodiad Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn rhoi cyfleoedd arbennig i blant a phobl ifanc o safbwynt y celfyddydau a diwylliant ond mae'r ŵyl hefyd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i fusnesau a'r economi lleol. Mae gwaith ymchwil yn dangos fod yr Eisteddfod yn cyfrannu dros £6 miliwn i'r economi lleol.
Dangosodd ymchwil hefyd fod:-

- 72% o'r ymwelwyr o ddosbarth cymdeithasol ABC1 [gyda 28% o ddosbarth gymdeithasol AB].
- 70% o'n hymwelwyr yn dod am ddeuddydd neu fwy, gyda 15% yn aros am wythnos.
- 78% yn gwario arian mewn busnesau lleol.
- 70% wedi ymweld â'r Eisteddfod o'r blaen.
- 41% yn aros yn yr ardal leol dros nos fel ymwelydd.
- 76% o'n hymwelwyr wedi eistedd yn y pafiliwn a 50% wedi ymweld â'r GwyddonLe.
- 25% yn ymweld ag atyniad twristaidd arall yn ystod yr wythnos.
- 60% o ymwelwyr yn dod oherwydd y 'cystadlu' felly yn teithio i'r ŵyl lle bynnag maent yn byw.

What is the Urdd Eisteddfod?

The Eisteddfod is one of Europe's largest touring youth festival. The festival is a celebration of the Welsh language, culture and wealth of young talent we have here in Wales. On average the Eisteddfod attracts 15,000 competitors and up to 90,000 visitors enjoy the atmosphere of this unique youth festival.

In 2020 the Eisteddfod will visit Denbighshire. The fields Kilford farm will be transformed into a bustling maes, ready to welcome children and young people, schools and families all parts of Wales and further afield. Local children will also benefit from a range of opportunities to participate in specially commissioned shows and concerts during the week.

While the focal point of the Eisteddfod is the pavilion where competitions take place, the 'Maes' (Festival Site) – is a colourful and exciting place to be.
Look out for:

- Performance stages showcasing singers, dancers, live bands, and school groups.
- The GwyddonLe science Pavilion, the Arts and Crafts Exhibition and the "Dysgu Cymraeg" pavilion for Welsh Learners.
- Pentre' Mistar Urdd will host Urdd Gobaith Cymru's very own mascot in his own, specially designed village. There will be live bands and activities happening in and around the village each day showcasing the best of what the Urdd has to offer.
- Sporting activities aplenty including archery, football, rugby and golf
- Concerts, evening competitions and free gigs.
- 100s of stalls and a wide range of food.
- Much, much more! There's never a dull moment on the 'Maes' and there's plenty to keep even the most energetic youngsters happy.

The Eisteddfod and the Local Economy

The Urdd National Eisteddfod not only gives children and young people opportunities in the field of arts and culture but also gives opportunities to the world of business and the economy. Research shows that large scale events bring considerable benefits to the area that hosts the event and Eisteddfod yr Urdd is not an exception. Research has shown that the Urdd National Eisteddfod contributes over £6 million to the local economy.

Our research shows that:

- 72% of visitors from ABC1 social class [with 28% from social class AB]
- 70% of visitors stay for 2 days or more, with 15% staying for the week.
- 78% of visitors spend money in local businesses.
- 70% have previously visited the Eisteddfod.
- 41% stay in the local area as visitors.
- 76% or our visitors watched a competition in the pavilion and 50% visited the GwyddonLe Science pavilion in 2016.
- 25% visit other tourist attractions during the week.
- 60% of visitors come due to the 'competing' therefore travel to the event wherever it is held.

Nawdd Corfforaethol

Mae gan yr Eisteddfod lu o becynnau nawdd amrywiol sy'n cyd-fynd ag amcanion marchnata a chyllideb sefydliadau a busnesau. Gall noddi'r Eisteddfod fod yn ffordd wych o godi ymwybyddiaeth a phroffil sefydliad, yn ogystal ag agor drysau i gynulleidfaoedd newydd ar hyd a lled Cymru.

Mae'r Urdd yn ffodus o gael nifer o noddwyr cenedlaethol a/neu hir dymor ac rydym yn gweithio'n barhaus i sefydlu partneriaethau newydd.

Mae yna ystod eang o opsiynau nawdd ar gael, sy'n amrywio o noddi cystadlaethau neu sioeau yn y pafiliwn, i noddi' gwaith print neu arddangosfa.

Mae pecynnau nawdd ar gael o £1,500 hyd at £25,000. Gweler fwy o wybodaeth yn y pecyn yma.

Mae'r Urdd yn falch o allu cynnig ystod eang o fuddiannau gwerthfawr i'w noddwyr, gan gynnwys:-

- **Logo ar gefnlen teledu lle mae'r holl gyfweliadau teledu yn cael eu cynnal**
- **Logo ar ddwy sgrin y pafiliwn**
- **Cyfleoedd PR megis datganiadau i'r Wasg.**
- **Cyfle i frandio strwythurau neu ardaloedd o'r maes**
- **Cyfle i hysbysebu yng ngwaith print yr Eisteddfod e.e. y rhaglen neu'r map**
- **Cyfle i ddosbarthu deunydd print i ymwelwyr drwy rwydweithiau'r Urdd**
- **Baneri ar y Maes**
- **Tocynnau i'r Eisteddfod**
- **Cydnabyddiaeth ar gyfryngau cymdeithasol sydd yn cyrraedd dros 15,000 o ddilynwyr**
- **Gwahoddiadau i dderbyniadau rhwydweithio'r Urdd**
- **Defnydd o lolfa'r noddwyr**

Darlledir dros 80 awr o'r Eisteddfod ar S4C sy'n cyrraedd dros 400,000 o bobl tra bod oddeutu 200,000 yn gwrando ar ddarllediadau dyddiol Radio Cymru o'r maes, gan alluogi i gynulleidfa ledled Cymru weld eich cefnogaeth.

Gellir teilwra unrhyw becyn nawdd i gyd-fynd â gofynion unrhyw sefydliadau a chwmnïau, boed hynny i gael platfform lleol neu genedlaethol, neu os ydych am gyrraedd cynulleidfa darged penodol.

Corporate Sponsorship

The Eisteddfod has a variety of sponsorship packages designed to meet your marketing aims and budget. Sponsorship is an excellent opportunity to raise the profile of your business or organisation both locally and nationally, while also offering essential support to the Urdd and its members.

The Urdd is fortunate to have many long-term sponsors, but we work continuously to establish new partnerships with local and national companies.

Sponsorship packages are available from £1,500 to £25,000 and include opportunities to sponsor stage competitions, print work, concerts or shows.

The Urdd is proud to offer many promotional benefits, which may include:

- **Company logos on the TV interview backdrops**
- **Logos on the pavilion screens denoting your support.**
- **PR opportunities including press releases**
- **An opportunity to place branding in exhibitions or banners on the maes**
- **An opportunity to advertise in the Eisteddfod Programme**
- **An opportunity to distribute print work to all competitors**
- **Logo on Eisteddfod publications**
- **Tickets to the Eisteddfod.**
- **Invitations to the Urdd's networking receptions.**
- **Recognition on our social media channels which reach 15,000 followers**
- **Use of our sponsor's lounge**

The Eisteddfod receives wide media coverage on local and national television with S4C broadcasting over 80 hours and reaching over 400,000 people and Radio Cymru's live radio coverage reaching a further 200,000 listeners, meaning audiences across Wales will be able to see your support.

Sponsorship packages can be tailored to your specific needs, be that a local or national platform or a specific target audience.

Stondin / Safle Arddangos

Beth bynnag eich busnes neu sefydliad, mae bod yn un o'r dros 100 o stondinau ar Faes Eisteddfod yr Urdd yn gyfle gwych i hyrwyddo eich cynnyrch neu wasanaeth.

Mae yna nifer o opsiynau ar gael:

- Llogi uned 3m x 6m. Gellir archebu mwy nag un o'r unedau yma i greu unedau mwy o faint. Mae'r pris yn cynnwys rheilen baner uwchben, llawr pren a ramp.

- Llogi strwythur arbenigol. Mae'r strwythurau yma yn amrywio mewn pris a maint.

- Llogi ardal ar Faes yr Eisteddfod ar gyfer eich trelar / stondin eich hunain.

- Noddi un o strwythurau parhaol yr Eisteddfod a chael lleoliad oddi fewn iddo.

Gellir darparu trydan, dŵr a charped i bob lleoliad am bris ychwanegol. Mae modd i bob stondin/arddangoswr logi cyfleusterau Technoleg Gwybodaeth a pheiriant PDQ (talu gyda cherdyn) hefyd.

Am fwy o wybodaeth ac i archebu eich Pecyn Unedwyr sydd yn cynnwys ffurflenni archeb, prisiau a Rheolau ac Amodau stondinau'r Maes, cysylltwch â Ruth Morris drwy e-bostio ruth@urdd.org

Trade Stands/ Exhibitors

Whatever your business or organisation, being one of the 100 stall holders on the Eisteddfod yr Urdd Maes is an excellent opportunity to promote your products or services.

There are many options available:

- Hiring a 3m x 6m unit. You may also order more than one unit to create a larger space. The price includes a banner rail, wooden floor and ramp.
- Hiring a specialized structure. There are a variety of structures available at different sizes and prices.
- Hiring a space on the Eisteddfod Maes for your own trailer / stand.
- Sponsor one of the locations on the Maes.

Electricity, water and carpet can be provided at an extra cost.

It is also possible to hire Information Technology services and PDQ machines (to pay with credit card).

For more information and to order you Trader's Pack which includes the relevant forms, prices and Terms and Conditions, please contact Ruth Morris on ruth@urdd.org .

Croeso Cynnes

Mae'n draddodiad erbyn hyn fod yr ardal sy'n croesawu'r Eisteddfod yn gwneud hynny drwy addurno tai, siopau, strydoedd, caeau ac unrhyw beth arall yn lliwiau'r Urdd, sef coch, gwyn a gwyrdd. Mae'r môr o liw sy'n croesawu ymwelwyr o bob cwr o Gymru a thu hwnt yn arwydd o'r croeso twymgalon sy'n eu haros ac ymrwymiad yr ardal i lwyddiant yr Eisteddfod.

Baneri coch gwyn a gwyrdd (Bunting)

- Bydd baneri coch, gwyn a gwyrdd ar gael i chi brynu ar gyfer addurno eich gweithle a'ch ardal. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Ruth@urdd.org

Posteri Croeso a thaflenni

- Bydd Eisteddfod yr Urdd yn cynhyrchu posteri A4 i osod mewn ffenestri siop neu swyddfeydd a thaflenni gwybodaeth am yr ŵyl. Edrychwch amdanynt!

Llety

- Os oes gennych lety i'w rhentu a fydd yn ddelfrydol i ymwelwyr Eisteddfod, mae modd i chi ddanfon y wybodaeth berthnasol atom ni ac fe fyddwn yn hysbysebu eich llety ar ein gwefan.

Gweithgareddau ar y Maes

- Os oes gennych unrhyw syniadau neu weithgareddau addas ar gyfer y Maes yn ystod wythnos yr Eisteddfod, cysylltwch â ni.

A Warm Welcome

It is traditional by now that the local area welcomes the Eisteddfod by decorating houses, shops, streets, fields and many other things in Urdd colours which are red, white and green. The sea of colour that awaits visitors from every part of Wales and beyond is a sign of the warm welcome and the dedication of the area to ensuring the success of the Eisteddfod. Below are a few options for you to assist your business or community as the Eisteddfod approaches:

Red, white and green bunting

- Red, white and green bunting will be available to buy in order for you to decorate your workplace or local area. Contact Ruth@urdd.org for more information.

Welcome Posters and Leaflets

- Eisteddfod yr Urdd will be producing A4 poster to display in shop windows or offices and information leaflets about the festival. Look out for them!

Accommodation

- If you have accommodation facilities to rent that would be ideal for visitors to the Urdd National Eisteddfod, you may send us the relevant information and we will advertise your accommodation on our website.

Activities on the Maes

- If you have any ideas or activities that would be suitable for the Maes during the week of the Eisteddfod, please contact us.

Cysylltwch â ni

Os hoffech drafod y posibiliadau o ran nawdd, cysylltwch â:-

Siân Stephen
Rheolwr Nawdd a Datblygu

029 20 635 694 neu 07786 808 085
sianstephen@urdd.org

Cysylltiadau eraill

Aled Siôn
Cyfarwyddwr yr Eisteddfod
aledsion@urdd.org

Morys Gruffydd
Trefnydd yr Eisteddfod
morys@urdd.org

Mali Thomas
Cyfarwyddwr Cyfathrebu Corfforaethol
mali@urdd.org

Trefnwyr Cynorthwyol yr Eisteddfod

Steffan Prys Roberts
steffanprys@urdd.org

Alaw Owen
alawowen@urdd.org

Catherine Tudor
catherinetudor@urdd.org

Llio Maddocks
lliomaddocks@urdd.org

Ruth Morris
Uwch Ysgrifennydd Adran yr Eisteddfod
ruth@urdd.org

Contact us

If you would like to discuss sponsorship, please contact:-

Siân Stephen
Sponsorship and Development Manager

029 20 635 694 neu 07786 808 085
sianstephen@urdd.org

Other Contacts

Aled Siôn
Eisteddfod Director
aledsion@urdd.org

Morys Gruffydd
Eisteddfod Organiser
morys@urdd.org

Mali Thomas
Director of Communications and Development
mali@urdd.org

Assistant Organiser
Steffan Prys Roberts
steffanprys@urdd.org

Alaw Owen
alawowen@urdd.org

Catherine Tudor
catherinetudor@urdd.org

Llio Maddocks
lliomaddocks@urdd.org

Ruth Morris
Uwch Ysgrifennydd Adran yr Eisteddfod
ruth@urdd.org